CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**05.10.23**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JOJ (Cadeirydd) DAW ; RY; EY; RJ; DP; IW; GW;<br>**Ymddiheuriadau:** AR;JAJ;LLMH;EO; GW<br>**Yn mynychu:** SWR |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd DAW ddiddordeb mewn materion eiddo gan ei fod yn gyflogai i Cwmni Eiddo ein Asiant - Rhys Jones<br>Datganodd DAW/ TAJ ddiddordeb Eitem 6 Materion Cyllidol a Thaliadau – cais CPD Llan Juniors i noddi twll Cystadleuaeth Golff |
| 3 | **Cofnodion 07.09.23** Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 07.09.23 fel rhai cywir (DW/DP) yn ddibynol ar dderbyn ychwanegiad yn cyfeirio at gytundeb Rhys Jones i weithredu rhent y Caffi am ffi o £10%<br><br>**Materion yn Codi**<br>**Lladrad Arwydd Croeso i Llan**<br>Nododd y Clerc bod modd gwneud cais yswiriant ond bydd 'excess' o £250. Mae amcanbris gan y cwmni arwyddion yn £295. Gan fod y pyst yn eu lle ni fydd cost ail osod. Cytunwyd yn unfrydol i archebu arwydd newydd ond peidio gwneud hawl yswiriant gan allasai hyn amharu ar daliadau yswiriant i'r dyfodol. Clerc i weithredu<br><br>**Gosod Tenantiaeth y Caffi**<br>Adroddodd y Cadeirydd ar y broses gosod. Dymunodd ddiolch i aelodau'r Panel penodi am eu gwaith. Dau ymgeisydd oedd yn cael eu cyfweld gan fod 4 wedi tynnu'n ôl am amrwyiol resymau. Bu rhai ymholiadau wedi'r dyddiad cau hefyd ond er mwyn sicrhau tegwch nid oedd yn gymmwys i'w hystyried. Nododd bod y ddau ymgeisydd yn agos iawn iawn ac o ganlyniad nid oedd yn benderfyniad hawdd. Yn dillyn canlyniad y broses sgorio, penodwyd Mr Clive Harper i ddechrau 13.11.23 gan fod Mr Harper wedi ymrwymo i'w waith presennol tan 31 Hydref ac wedi trefnu gwyliau tramor am 10 diwrnod wedi |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | hyny.<br>Nododd y Clerc ei bod wedi rhannu adroddiad Rhys Jones ar y broses marchnata a chyfweld eisoes. Clerc i gydweithio hefo RhJ ar y camau nesaf.<br><br>**Ethol Is Gadeirydd** – cytunodd Mr Robin Jones i fod yn Is-Gadeirydd a diolchwyd iddo.<br><br>**Byrddau Snwcer –** Adroddodd y Clerc nad oedd cwmni Morgan Evans yn gallu gwerthu'r byrddau oherwydd diffyg man i'w storio. Dywedodd EY ei bod wedi holi Mr Evans o'r cwmni ac ei fod wedi gofyn iddi am luniau. Cytunwyd i DAW holi Clwb Amwlch os oes ganddynt ddiddordeb. RJ/DP.IW i ymweld a'r byrddau a thynnu lluniau i'w hanfon trwy EY at Morgan Evans. Nodwyd hefyd bod un o drigolion y pentref wedi holi am brynu un bwrdd, y gobaith y cawn amcanbris gan Morgan Evnas i'w rannu ymhellach os bydd angen.<br><br>**Adolygiad Amserlen 23/24 - ok**<br>Cyflwynwyd amserlen wedi ei adolygu ac fe gytunwyd yn unfrydol ar y man newidiadau. Clerc i gylchredeg eto.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 05.10.23 |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**Effaith negyddol ceisiadau cynllunio ar yr Iaith Gymraeg** – (cais AR) - trafod ymhellach yng ngyfarfod mis Tachwedd<br><br>**Sul y Cofio –** cyfeiriodd y Clerc at ebost gan JAJ yn amlinellu'r trefniadau hyd at heddiw. Cytunwyd i'r canlynol:<br>• Clerc i gysylltu a'r Parch Vaughan Prydderch; Tegwen Owen i drefnu panad yn yr Ysgol; Alan Jones am gau'r ffordd; Cais i blant yr Ysgol osod torch; sicrhau bod Howdens wedi tynnu'r hysbys oddiar y ffens; holi Sion Roberts am drefnu carreg addas ar gyfer nodi merched 'Land Army'<br>• DAW i dderbyn y rhithoedd gan JAJ; trefnu sain;<br><br>**Creu Cwmni Cymunedol -** (cais LLMH) -<br>trafod ymhellach yng ngyfarfod mis Tachwedd<br><br>**Cefnogi Grwp LlanNi –** adroddodd y Clerc bod trefniadau i greu Hwb Cymunedol yn yr hen siop biano yn datblygu'n dda. Nododd bod cyfarfod yn y Caffi nos Fawrth 10.10.23 am 6pm i bawb gael cyfle i weld cynlluniau'r pensaer, Cwmni Cadarn a bod croeso cynnes i'r aelodau fynychu. Hefyd, nododd bod cais y Loteri Fawr angen llythyrau o gefnogaeth a gofynodd i unrhyw lythyr o gefnogaeth gael ei anfon at Bella Kennet. Cytunwyd i C C Llan anfon llythyr o genfogaeth.<br><br>**Llwybrau Cyhoeddus –** cyfeirodd y Clerc at ebost dderbyniwyd gan CSYM yn nodi eu bod wedi derbyn cwyn am y llwybr cyhoeddus tuag at Pen y Foel. Nodwyd bod arian ar gael gan CSYM i'w ad-dalu i CC Llan os bydd gwariant ar glirio. |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Roedd yr ebost yn holi am berchnogaeth y tir o gwmaps y llwybr gan mai'r perchnogion sy'n gyfrifl am dorri gwrychoedd. Cytunwyd i'r Clerc anfon y wybodaeth berthnasol ymlaen ac i DAW holi Arwyn Hughes Llwydiarth os fyddai'n fodlon clirio'r llwybr. Clerc/DAW i weithredu |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Medi** – **£**<br><br>Rhys Jones Eiddo – talu am EPC Caffi 240.00<br>PWLB – talu benthyciad 2695.68<br>Carolyn Owen – ad-daliad cyflenwad nwy ir Caffi 314.71<br>Dwr Cymru – Clwb Bowlio 12.75<br>Fynwent 9.58<br>CPD 64.77<br>Uned 2 200.70<br>ScottishPower Uned 1 160.61<br>Lwfans Cefnogi Aelodau £150 X 2 300.00<br><br>**Biliau cyfredol:** **£**<br>Cyflog Clerc Hydref £435.69 gyda 1 taliad ZOOM 14.39<br>**NODER**: cyflog yn llai gan fod Côd Treth y Clerc wedi newid – IG Jones wedi cadarnhau'r newid. 450.08<br>Cais i noddi hysbysfwrdd yn CPD – cytunwyd (DW /RJ) 50.00<br>Noddi twll cystadleuaeth Golff Llan – cytuno £50 (EY/IW) o gronfa Ysgol Haearn 50.00<br>Infois gan Trevor Roberts Glaziers i drwshio ffenast Caffi – cyfanswm yn 580.00<br>(ond wedi derbyn ad-daliad yswiriant £330)<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £ 11427.14<br>Cyfrif Cadw: £ 8466.71<br><br>Nododd y Clerc bydd arian yn mynd mewn ac allan o'r cyfrif gan fod C C Llan yn cefnogi ymgais Grwp LlanNi i sicrhau grant Loteri Fawr**.** |
| **7** | **Materion Cynllunio –** dim i law |
| **8.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** dim i law |
| **9** | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel**<br><br>Nododd y Clerc bod Cyng LLMH wedi trafod sefyllfa yr Unedau gyda T Dylan Edwards CSYM a bod Mr Edwards wedi cytuno i lunio Astudiaeth Dichonoldeb (Feasability Study) ar y safle. Y camau cyntaf fydd i sicrhau EPC ar pob uned ac mae'r Clerc wedi gofyn i Rhys Jones weithredu hyn. |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **Safle'r Stesion**<br><br>Holodd TAJ oes oedd modd cael gosod toiled dros dro yn y maes parcio'r tra bydd y Caffi ar gau. Clerc i holi ymhellach<br><br>Cyfeiriodd hefyd at luniau Marged Ann sydd yn cael eu storio ym Mwthyn yr Onnen. Nododd nad oes rhai wedi eu fframio yn weddil. Cytunwyd i DAW roi llun ar gweplyfr Lluniau LLan i hyrwyddo gwerthiant.<br><br>**Rhodd Carolyn** - cafwyd trafodaeth am roi cydnabyddiaeth i Carolyn Owen am ei gwaith arderchog yn y Caffi dros y blynyddoedd. Cynigiodd DW i brynu anrheg (gemwaith neu gloc) gwerth £50 yn hytrach na thaleb neu arian parod ac fe eilwyd gan IW, cytunwyd yn unfrydol Clerc i weithredu.<br><br>**Paentio, chwynu a thwtio ardal Stesion** – cytunwyd i'r Clerc geisio pris am baentio y dair stafell wag a hyny cyn i'r tenant gyrraedd. Cafwyd manylion cyswllt 4 enw lleol. Nodwyd bod y Caffi yn dderbyniol fel ag y mae. Hefyd holi am brisiau chwynu a thwtio yr ardal o gwmpas hefo ein contractwr torri gwair.<br><br>**Lawnt Fowlio –** Clerc i drefnu cyfarfod rhag blaen. Nododd DAW bod y 'Key pad' ar y drws wedi torri a bod GW am geisio ei drwshio. Yn y cyfamser dim ond clo goriad sy'n weithredol.<br><br>**Clwb Peldroed –** dim i law<br><br>**Cae Gofeb –** roedd JAJ yn nodi yn ei ebost dylid tynnu'r eiddew o gwrychyn yn y man cynta er mwyn gweld faint o waith adfer fydd ei angen.<br><br>Cytunwyd i'r Clerc anfon llythyr o gefnogaeth at y grwp Caru Llan sy'n ceisio gwella y cyfarpar chwarae<br><br>**Mynwentydd –** dim i law<br><br>Nodwyd hefyd bod problemau parcio eto mewn safleoedd yn y pentref – Y Garth a Stryd Tiwdor. Mae swyddog y Cyngor John Roberts wedi ei hysbysu ond yn nodi nad ydynt yn foduron wedi eu gadael (abandonded) – mae C C Llan yn meddwl yn wahanol – Clerc i wirio eto. |
| **10.** | **Gohebiaeth**<br><br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel â nodwyd – dim sylwadau pellach. |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8:30* |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383